# Cenn@d

MAWRTH 9 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 54


## Cyhoeddi enillydd Emyn i Gymru 2022

Fel rhan o ddathliadau *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn drigain oed, lansiwyd cystadleuaeth cyfansoddi emyn yn gynharach eleni. Mewn rhaglen arbennig ar 27 Chwefror cyhoeddwyd mai Eirian Dafydd oedd awdur y geiriau buddugol, gyda'i hemyn 'Gweddi'r Pererin'. Fe'i canmolwyd yn fawr gan y beirniaid, John Gwilym Jones a Catrin Alun, am emyn gafaelgar â delweddu cryf. Yn dilyn y cyhoeddiad aeth Aled Davies ati i'w chyf-weld ar ran *Cenn@d*.

**Eirian – yn y lle cyntaf, llongyfarchiadau mawr i ti ar greu emyn mor odidog, ac mor berthnasol i'n cyfnod. Fedri di rannu ychydig o'th hanes a'th fagwraeth â ni?**

Gan mai gweinidog oedd fy nhad, y diweddar Barchedig Trefor Davies Jones, cefais fy magu mewn dwy ardal yn y gogledd – Blaenau Ffestiniog a Llannerch-y-medd ar Ynys Môn. Y pynciau gwyddonol aeth â'm bryd yn Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, ac yn ddeunaw oed es i'r brifysgol yng Nghaerdydd a graddio mewn Biocemeg. Arhosais ymlaen wedyn i wneud gradd doethuriaeth cyn gwneud gwaith ymchwil am rai blynyddoedd ac yna newid cyfeiriad a mynd i ddysgu yn Ysgol Gyfun Cymer Rhondda.

**Beth am y gwreiddiau ysbrydol ac unrhyw ddylanwadau mawr ar dy fywyd?**

Bu fy nhad yn ddylanwad yn sicr oherwydd y modd yr oedd yn ceisio byw'r bywyd Cristnogol yn ei waith bob dydd a'i ymwneud ag eraill. Ni allaf honni fy mod yn cofio unrhyw un o'i bregethau'n arbennig, ond mae'r geiriau adnabyddus hyn am Tom Nefyn yn wir am fy nhad hefyd: 'o'i holl bregethau i gyd / y fwyaf oedd ei fywyd'.

**Cofiwn i ti ennill hefyd yn eisteddfod rithiol *Cenn@d* y llynedd. Faint o emynau wyt ti wedi eu creu erbyn hyn?**

Ennill ar yr englyn a wnes yn eisteddfod rithiol *Cenn@d*. Ar y pryd roeddwn wedi dechrau meddwl am ysgrifennu emyn ar gyfer Sul yr Hinsawdd, ond nid oedd yn fwy na syniad annelwig yn y pen erbyn y dyddiad cau. Ond fe luniwyd yr emyn erbyn Sul yr Hinsawdd. Ysgrifennais emyn hefyd ar gyfer cyfnod y Grawys y llynedd yn dilyn her gan Gwilym, y gŵr, i wneud rhywbeth am y diffyg emynau ar gyfer y tymor yma.



**O ble daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr emyn arbennig hwn?**

Y bwriad gwreiddiol oedd ceisio llunio emyn ar gyfer y cyfnod ôl-Covid, yn dilyn y tristwch o ddeall na fyddai rhai capeli'n ailagor eu drysau a sylweddoli bod rhai aelodau wedi cilio dros y ddwy flynedd diwethaf. Ond wrth ddatblygu'r emyn fe aeth ar drywydd ychydig yn wahanol a dod yn weddi i unrhyw un ar unrhyw adeg wrth deimlo bod amgylchiadau'n gwanhau ei ffydd. Defnyddiais ddameg y Mab Afradlon fel delwedd o droi am adre gan wybod bod y Tad yno, yn aros i groesawu'r afradlon yn ôl.

Ym mhenillion 2 a 3 mae cyfeiriadau mwy personol hefyd, lle mae sôn am iachâd. Bûm yn dioddef o psoriasis er pan oeddwn yn 5 oed, ac yn blentyn ac oedolyn ifanc treuliais sawl cyfnod yn yr ysbyty. Yn fy ugeiniau cynnar es i i oedfa gyda'r Weinidogaeth Iacháu. Yno maent yn eich bendithio ac yn gweddïo drosoch trwy arddodiad dwylo, a dyna sydd tu cefn i'r llinellau 'a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu' a 'daw cyffro dy gyffyrddiad'. Rhaid ychwanegu bod y Weinidogaeth Iacháu wedi bod yn gweddïo drosof am flynyddoedd wedyn ac yn sgil hyn fe ddaeth gwellhad anhygoel os nad iachâd llwyr.

**Pa emynwyr wyt ti'n hedmygu eu gwaith? Oes 'na rywrai wedi dylanwadu arnat?**

Anodd iawn yw ateb hwn gan fy mod yn edmygu gwaith y rhelyw o'n hemynwyr. Haws yw nodi'r math o emynau sy'n apelio ataf neu wedi dylanwadu arnaf - y rhai â neges syml ond sydd hefyd fel pe baent yn siarad yn uniongyrchol â fi neu'n mynegi profiadau y gallaf uniaethu â hwy.

**Petaet yn gorfod dewis UN emyn fel dy ffefryn, pa un fyddai hwnnw?**

Tasg sy'n anelu at fod yn amhosibl yw hon. Ond, o orfod dewis, emyn y diweddar Barchedig John Roberts, 'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr' (*Caneuon Ffydd*, 758). Mae'r emyn yn sôn am law'r Ceidwad yn gafael a'r gynhaliaeth a geir o hynny.

**O gofio bod angen creu emyn-dôn ar gyfer y geiriau, pa fath o dôn fyddet ti'n dymuno'i gweld? Oes gen ti gyngor neu arweiniad i unrhyw ddarpar gyfansoddwyr?**

Mae'r mesur (11.11.11.10) yn un nad oes tôn iddi yn *Caneuon Ffydd,* er nad oeddwn yn ymwybodol o hynny wrth ddechrau ysgrifennu'r emyn. O ran arweiniad i ddarpar gyfansoddwyr, hoffwn dôn ganadwy, un a fyddai'n aros yn y cof ar ôl ei chlywed ac yn rhwydd i gynulleidfaoedd ei dysgu.

**Gweddi'r Pererin**

Fy Nuw, fy Nhad, pan giliaf i'r cysgodion
yn wan fy ffydd, yn blentyn tlawd afradlon,
cyfeiria fi at loches y fforddolion
lle byddi di, yn disgwyl im nesáu.

Ac wrth nesáu, rhof heibio fy ffolineb
wrth geisio'r ffordd i fywyd o ffyddlondeb;
trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb
a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu.

A thrwy'r iacháu, daw cyffro dy gyffyrddiad
yn brofiad byw, yn gyfrwng fy adfywiad;
er gwendid ffydd, o obaith daw arddeliad
a'th gariad di yn foddion i'w gryfhau.

Ar ôl cryfhau a'm derbyn yn etifedd
o fewn dy byrth, caf brofi o'th ddigonedd;
rhyfeddu wnaf, O Dad, at dy drugaredd
gan aros byth, i'th foli a'th fwynhau.

Yn dilyn cyhoeddi enillydd geiriau'r emyn, mae *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn eich gwahodd i gyfansoddi emyn-dôn ar gyfer 'Gweddi'r Pererin'. Bydd gwobr o £200 i'r cyfansoddwr buddugol. Ceir manylion llawn trwy glicio ar y ddolen


Ymdrech 24 awr anhygoel i gefnogi ffoaduriaid
**Tudalen 3**

Arweinwyr ffydd yn annog diwygio'r Bil Ffoaduriaid
**Tudalen 4**

O'r byd a'r betws Cenedl-garwch?
**Tudalen 7**